

# Rydych chi wedi cwyno am wasanaeth cyhoeddus yng Nghymru



Dyma beth sy'n digwydd os ydych chi'n cwyno i ni am wasanaethau cyhoeddus.



Mae'r dudalen gefn yn dweud wrthoch chi sut i gael gwybod mwy.



Gallwch chi siarad gyda ni os nad ydych chi'n siŵr am gwyno i ni.



Dyma beth sy'n digwydd os ydych chi'n cwyno i ni am sefydliadau fel:



- Cyngor Lleol



- Y GIG (NHS)



- Tân ac Achub



- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol



- Cyfoeth Naturiol Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Cyrff Llywodraeth Cymru.

Dyma rai enghreifftiau:



- Cyngor Celfyddydau Cymru



- Amgueddfeydd Cenedlaethol



- Chwaraeon Cymru



- Gofal Cymdeithasol Cymru



- Arolygiaeth Gofal Cymru



## Rydw i wedi anfon cwyn

Byddwn ni'n edrych ar yr wybodaeth yr ydych chi wedi anfon aton ni.



Byddwn ni'n gwirio:



- A yw'r gŵyn am rywbeth y mae hawl gyda ni edrych arno?
- A wnaeth hyn ddigwydd yn y 12 mis diwethaf **neu** a wnaethoch chi gael gwybod amdano yn 12 mis diwethaf?



- A ydych chi wedi rhoi cyfle i'r sefydliad wneud yn iawn am y peth?



**Gallwn ni wneud rhywbeth am eich cwyn dim ond os mai “ydy/do/ydw” yw'r atebion i'r cwestiynau hyn.**



Byddwn ni'n gwirio hyn mewn 6 wythnos.



Byddwn ni'n dweud wrthoch chi os allwn ni wneud rhywbeth am eich cwyn.

Gallwn ni edrych ar y peth dim ond



- os yw'n bosib bod y sefydliad wedi ymddwyn yn wael.

**ac**



- mae beth maen nhw wedi ei wneud wedi eich brifo chi neu wneud eich bywyd yn anodd.



## **Beth sy'n digwydd os dydyn ni ddim yn gallu helpu?**



Byddwn ni'n ysgrifennu a dweud wrthoch chi pam dydyn ni ddim yn gallu helpu.



Byddwn ni'n dweud wrthoch chi os ydyn ni'n meddwl y gall rhywun arall helpu.



Efallai byddwn ni'n dweud wrth y sefydliad am edrych ar eich cwyn.



Efallai byddwn ni'n gwneud hyn os ydyn ni'n meddwl eich bod chi heb roi cyfle iddyn nhw wneud yn iawn am y peth.



## **Beth sy'n digwydd os ydyn ni'n gallu helpu?**



Byddwn ni'n ysgrifennu ac yn dweud wrthoch chi beth ydyn ni'n ei wneud.

Byddwn ni'n ysgrifennu at y sefydliad hefyd.



Efallai byddwn ni'n gofyn i'r sefydliad wneud rhywbeth yn gyflym i wneud yn iawn am y peth.



Efallai byddwn ni'n edrych ar eich cwyn. Gallai gymryd hyd at 12 mis i edrych ar eich cwyn.



## Edrych ar eich cwyn



Efallai y byddwn ni'n gofyn mwy i chi am beth ddigwyddodd.



Byddwn ni'n gofyn i'r sefydliad am wybodaeth am beth ddigwyddodd. Efallai byddwn ni'n gofyn iddyn nhw anfon adroddiadau neu bapurau aton ni.



Byddwn ni'n dweud wrthoch chi beth ydyn ni'n ei wneud.



Pan fyddwn ni wedi gorffen, byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad neu lythyr i ddweud:



- Pa wybodaeth wnaethon ni ei defnyddio




- Beth wnaethon ni benderfynu



Byddwn ni'n anfon hwn atoch chi a'r sefydliad.



Gallwch chi ddweud wrthon ni beth ydych chi'n ei feddwl.




Yna byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad neu lythyr terfynol.



Os byddwn ni'n gofyn i'r sefydliad wneud rhywbeth i wneud yn iawn am y peth, byddwn ni'n gwirio eu bod nhw'n gwneud hynny.



## Dydw i ddim yn hapus gyda beth ydych chi wedi ei wneud



Os ydych chi'n credu ein bod ni wedi gwneud y peth anghywir, mae'n rhaid i chi ysgrifennu aton ni o fewn 4 wythnos.



Gallwch chi ofyn i ni edrych ar y peth eto **os**:



- mae tystiolaeth newydd gyda chi



- gallwch chi ddangos ein bod ni ddim wedi meddwl am yr holl wybodaeth oedd gyda ni.



Byddwn ni'n penderfynu os byddwn ni'n edrych eto ar eich cwyn.



## Cysylltu â ni



Ffôn 0300 790 0203



E-bost [holwch@ombwdsmon.cymru](mailto:holwch@ombwdsmon.cymru)



Gwe [www.ombwdsmon.cymru](http://www.ombwdsmon.cymru)



Ysgrifennu  
Ombwdsmon Gwasanaethau  
Cyhoeddus Cymru  
1 Ffordd yr Hen Gae  
Pencoed  
CF35 5LJ



Mae'r fersiwn Hawdd ei Darllen hon wedi cael ei gwirio'n annibynnol yn defnyddio Check It!



Cafodd y Fersiwn Hawdd ei Darllen hon ei chynhyrchu gan Gwmni Buddiant Cymunedol Barod i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2015. Diweddarwyd Tachwedd 2022.